

## **Polisi Codi Tâl a Ffioedd ar gyfer Trwyddedu Safleoedd Cartrefi Symudol**

### **Cyflwyniad**

Mae deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a ddeddfwyd yn ddiweddar ar ffurf Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru wella rheoleiddio'r diwydiant cartrefi symudol fel bod amodau ar safleoedd cartrefi symudol yn well a hawliau trigolion yn cael eu hamddiffyn yn well.

Daeth y gyfraith newydd i rym ar 1 Hydref 2014.

Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i awdurdodau lleol osod ffioedd ar gyfer trwyddedu'r safleoedd cartrefi symudol hyn, a amlinellir yn yr adroddiad.

Yn unol â Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, mae gan Gyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") bwerau i gyhoeddi trwyddedau o ran safleoedd "wedi eu rheoleiddio" ac i godi ffioedd am ddarparu swyddogaethau trwyddedu o'r fath. Caiff safleoedd rheoledig eu diffinio fel safle yng Nghymru sydd ag o leiaf un cartref symudol arno at bwrpas annedd dynol a ddefnyddir ar gyfer preswyllo ynddo.

Ni ystyrir safleoedd y mae awdurdodau lleol yn berchen arnynt fel y rhai a ddefnyddir fel safleoedd sioeau teithiol fel safleoedd gwarchoddedig.

Gall Cyngorau godi:

- ffi drwyddedu ar gyfer ceisiadau er mwyn caniatáu neu drosglwyddo trwydded neu gais i newid yr amodau ar drwydded a ; ffi ar gyfer cadw a chofrestru rheolau safle

Cyn codi'r ffi, rhaid i'r awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi'r polisi ffioedd hwn

Wrth benderfynu ar ffi:

- bydd y Cyngor yn ymddwyn yn unol â'u polisi ffioedd
- mae'n bosib i'r Cyngor gymysgu ffioedd ar gyfer achosion gwahanol neu ddisgrifiadau o achosion, ac
- mae'n bosib i'r Cyngor ddod i ganlyniad nad oes angen talu ffi mewn rhai achosion

Rhaid i unrhyw ffioedd a godir dalu am gost (neu dalu rhan o'r costau) a ysgwyddir gan y Cyngor o dan ei swyddogaethau yn Rhan 1 y Ddeddf, ar wahân i gostau camau gorfodi.

### **Mabwysiadu'r Ddeddf**

Mabwysiadwyd y Ddeddf gan yr Awdurdod ar 31 Medi 2014 gan gymeradwyaeth y Cabinet a rhoddwyd yr awdurdod dirprwyedig cysylltiol i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Rhoddwyd yr awdurdod i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i osod ffioedd a thaliadau yn unol â'r Ddeddf ar ran yr awdurdod lleol

## **Strwythur y ffioedd trwyddedu**

Wrth gyfrifo strwythur y ffi, mae'r Cyngor wedi cyfrifo ei ffioedd yn unol â darpariaeth Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 sy'n galluogi'r Cyngor i gynnwys ei holl gostau rhesymol ac mae hyn yn cynnwys costau gweinyddu, ymweliadau Swyddogion â'r safle, costau teithio, ymgynghoriadau, cyfarfodydd, ymgymeriadau a chyngor anffurfiol.

Ffioedd Cais:

Mae'r Cyngor wedi selio strwythur ei ffioedd ar gost gweinyddu'r cais a hefyd ar faint y safle gan fod mwy o waith yn ymwneud â phenderfynu ar gais am safle mwy nac sydd ar safle llai.

Amlinellir y strwythur ffioedd, sy'n cynnwys gweinyddu'r drwydded a chostau archwilio safle, yn Atodiad 1 isod.

Amrywio Ffioedd Amodau Trwydded

Os yw'r Cyngor yn penderfynu ei fod yn angenrheidiol amrywio amodau, neu fod perchnogion y safle'n gofyn i amrywio amodau, ni fydd ffi'n daladwy gan ddeilydd y drwydded. Y ffi cais am amrywiad ar drwydded safle yw £170, a fyddai'n cynnwys ymweliad i'r safle yn ddibynnol ar natur yr Amodau oedd angen eu newid.

Ffioedd am gyflwyno rheolau safle.

Mae rheolau safle'n wahanol i amodau trwyddedu safle ac fe'i gosodir gan berchennog safle er mwyn sicrhau cynnal amodau derbyniol a fydd o fudd i breswylwyr neu a fydd yn hyrwyddo ac yn cynnal cydlyniant cymunedol ar y safle. Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn newid y ffyrdd mae'n rhaid cytuno ar reolau'r safle.

Rhaid i'r Cyngor gadw cofrestr gyfredol o reolau safle a chyhoeddi'r rheolau ar wefan y Cyngor. Cyn cofnodi'r rheolau, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod y rheolau wedi eu gwneud yn unol â'r broses statudol.

Bydd y cyngor yn codi ffi sefydlog o £25 am gyflwyno rheolau safle. Os yw perchennog y parc wedi cwblhau proses ymgynghorol annigonol, bydd rhaid i perchennog y parc dalu ffi gosod rheolau safle newydd er mwyn cwrdd costau'r Cyngor.

## **Manylion Gorfodi**

Rhybuddion Cosb Benodedig

Mae Adran 6 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn caniatáu i Gyngorau gyflwyno Rhybuddion Cost Benodedig (RhCB) er mwyn rhyddhau rhai achosion penodol o dorri

amodau trwyddedu'r safle. Ni ddylai Rhybuddion Cosb Benodedig fod yn fwy na lefel 1 ar y Raddfa dirwyon gyffredinol. Gallai'r Cyngor ddefnyddio rhybudd cosb benodedig er mwyn delio gyda materion tor-cyfraith bach megis:

- methu gwaredu sbwriel
- peidio â chydymffurfio â rheolau'r safle
- diffyg darpariaeth o olau digonol o amgylch y safle

Mae'r prosesau'n ymwneud â gwasanaeth Rhybudd Cosb Benodedig Cartrefi Symudol yn mynd i fod yn debyg i'r rhai sy'n ymwneud â'r Rhybudd Cosb Benodedig a gyhoeddir gan y Cyngor am droseddau gadael sbwriel yn unol â Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gosod dirwy Rhybudd Cosb Benodedig o £75 ar gyfer camymddygiad sbwriel ac felly bydd cost Rhybudd Cosb Benodedig Cartrefi Symudol yn £75 hefyd er mwyn adlewyrchu hyn.

Costau am Hysbysiadau Cydymffurfio a Gwaith Diodyn ar ran y Perchennog

Mae Adran 17 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn caniatáu'r Cyngor, yn ôl eu disgrisiwn, i gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio i berchnogion safle lle mae'r amodau trwyddedu safle yn cael eu torri. Bydd rhybuddion o'r fath yn egluro beth sydd angen i'r perchennog ei wneud er mwyn cywiro'r tor-rheolau a'r amserlenni. Bydd methiant i gydymffurfio gyda'r rhybudd yn drosedd gyfreithiol, yn gosbadwy gan ddirwy a byddai trwydded y safle yn cael ei thynnu yn ôl ar y trydydd neu fwy o erlyniadau dilynol (adran 18). Yn dilyn erlyniad llwyddiannus am dorri hysbysiad cydymffurfio, byddai modd i'r Cyngor gyflwyno rhybudd mynd ar dir y safle er mwyn gwneud y gwaith angenrheidiol (Gwaith diodyn ar ran y perchennog)

Yn ogystal â hyn, mae Adran 21 y Ddeddf yn caniatáu cyflwyno rhybudd i berchnogion safle sy'n galluogi'r Cyngor i gael mynediad i'r safle er mwyn gwneud gwaith argyfwng pan fydd risg o niwed difrifol.

Gellir adennill y gost o benderfynu os oes angen gweithredu, paratoi a chyflwyno cydymffurfedd ac/neu weithred argyfwng (Adran 19 a 22 yn eu tro). Bydd y costau y gall yr awdurdod lleol geisio eu hadennill (y costau perthnasol) gynnwys, ond nid fod yn gyfyngedig i:

- Gostau cael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).
- Costau archwilio
- Gostau gweinyddol o gyflwyno rhybudd

Costau cyflwyno hysbysiad cydymffurfio fydd ffi sefydlog gydag isafswm o £150. Bydd costau cyngor arbenigol a chostau eraill yn ymwneud yn benodol gydag achos unigol yn cael eu codi ar sail bob cais yn unigol. Bydd rhestr fanwl o'r costau perthnasol yn cael eu hamlinellu yn y gorchymyn fydd gyda'r taliad.

Hyd nes eu bod yn cael eu talu, bydd y costau perthnasol ac unrhyw log a grynhoir, yn bridiant tir cyfreithiol.

Bydd gwaith diofyn ar ran y perchennog yn cael ei wneud yn unol â phroses Gwaith Diofyn ar ran y Perchennog yr Adran gan gymryd Polisi Gorfodi Corfforaethol y Cyngor i ystyriaeth.

### **Cyhoeddi'r polisi ffioedd**

Cyhoeddir polisi ffioedd trwyddedu safleoedd cartrefi symudol ar wefan y Cyngor. Os bydd y Cyngor yn adolygu ei bolisi ffioedd bydd yn cyhoeddi'r polisi wedi'i adolygu yn lle'r polisi cyntaf. Cedwir copi caled o'r Polisi Ffioedd yn Adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Tŷ Russell, Churton Road, Y Rhyl, LI18 3DP Rhif ffôn 01824 706449.

### **Sut dylid talu'r ffioedd**

Mae'r Cyngor yn gofyn i'r holl ffioedd gael eu cynnwys gydag unrhyw gais am drwydded safle newydd, am newid trwydded safle neu drosglwyddo trwydded safle.

### **Adolygu'r strwythur ffioedd**

Caiff y strwythur ffioedd ei adolygu'n flynyddol a'i adolygu'n unol â Ffioedd eraill y Cyngor. Bydd unrhyw addasiadau yn cymryd amrywiaethau mewn amser swyddog, amser gweinyddol, a newidiadau i raddfeydd swyddog, costau teithio neu unrhyw gostau perthnasol eraill wrth ddarparu'r drwydded i ystyriaeth.

## Atodiad 1

### Cynllun Codi Tai – Safleoedd Cartrefi Symudol

	<b>Maint y Safle</b>	<b>Ffioedd trwyddedu ac archwilio</b>	
	Preswyl Sengl	£100.00	
	Preswyl Sengl ar safle cymysg	£140.00	
	Safle bach (2 i 10 uned)	£255.00	
	Safle canolig (11 i 50)	£400.00	
	Safle mawr (51+ uned)	£615.00	
	<b>Costau Eraill</b>		
	Amrywio amodau trwyddedu	£170.00	
	Gosod rheolau	£25.00	
	Cyfnewid Trwydded.	£15.00	
	<b>Costau Gorfodi</b>		
	Rhybuddion Cosb Benodedig	£75	
	Hysbysiadau cydymffurfio	£150	